

Welsh
in a
Week

Learn
Welsh
Quickly
by
Conversation

30p

WELSH IN A WEEK

A Rapid Method
of Learning Welsh
by means of Conversation

*By studying this book you can learn to
speak Welsh in a short time.*

*Trwy astudio y llyfr hwn gellwch ddysgu
siarad Cymraeg mewn byr amser.*

Published by
EVANS & SHORT LTD.
TONYPANDY

(All Rights Reserved)

The Alphabet — Y Wyddor

A B C CH D DD E F FF G NG H I LL L M N O
P PH R S T TH U W Y

A Guide to Pronunciation

The accent in Welsh words is nearly always on the last syllable but one, except in a few instances when it falls on the last syllable. In most cases these exceptions are distinguished by the vowels being circumflexed or aspirated with "h."

There are no silent letters in Welsh words, and the same letter has nearly always the same sound, so that after the pronunciation of the alphabet has been thoroughly mastered, the learner should have little difficulty in pronouncing any Welsh word correctly.

A short as in "man," or long as in "half." Never as in "mane."

B as in English.

C as in "can," never as in "city."

CH a guttural sound as in Scotch word "loch," much emphasised; never sounded as in the word "church."

D as in English.

DD* has the sound of "th" in "this" or in "heather," never as the "th" in "smith" or "earth."

E as in "men," or as "a" in "lady."

F as in "of," or as "v" in "ever."

FF* as "f" in "for" or "ff" in "effort."

G always hard as "g" in "egg," never soft as "g" in "gin."

NG* nasal as in "ring."

H always aspirated as in "hard."

I short as "i" in "win," or long as "ee" in "queen."

L as in English.

LL* has no equivalent sound in English, but is pronounced by placing the tip of the tongue at the back of the top teeth, and forcing out the breath on both sides of the tongue.

M as in English.

N as in English.

O short as "o" in "not" or long as "o" in "rose."

P as in English.

PH* as "ph" in "physic" (has the same sound as the Welsh "ff").

R always trilled as "rr" in "arrow" or "r" in the French word "père."

S as in "sin," never as in "things."

T as in English.

TH* as in "thin."

U as "y" in "hymn."

W as "oo" in "fool."

Y as "u" in "run"; when occurring in the last syllable of words of more than one syllable and followed by a vowel, is sounded like the "y" in "hymn."

*These letters, when appearing in Welsh words, are not simply double letters, but have always the special sounds as described above.

The only consonants which are doubled in Welsh are **N** and **R**.

The letters **J K V X** and **Z** never occur in any purely Welsh words.

Conversation — Ymddiddan

ON THE JOURNEY

Is there any room ?
 There is plenty of room here.
 Do not move.
 May I open the window ?
 Shut the window, if you please.
 Are you going far ?
 I am going to Wales.
 Indeed ! What part ?
 Glamorgan ?
 No ; I am going to Pembroke.
 Then I shall have the pleasure of your company.
 That will be very agreeable.
 Do we change carriages on the journey ?
 I think so.
 No, I do not think so.
 Have you ever been in Pembroke before ?
 Yes, many times. I lived there several years.
 What is the name of the next station ?

AR Y DAITH

A ces lle yna ?
 Mae digon o le yma.
 Peidiwch a symud.
 A gaf fi agor y ffenestr ?
 Cauwch y ffenestr, os gwelwch yn dda.
 A ydych chiwi yn mynd ymhell ?
 Yr wyf yn mynd i Gymru.
 Yn wir ! Pa ran ? Morgannwg ?
 Nage ; yr wyf yn mynd i Benfro.
 Felly caf y pleser o'ch cwmni.
 Bydd hynny'n ddymunol iawn.
 A ydym yn newid cerbydau ar y daith ?
 Yr wyf yn meddwl ein bod.
 Na, nid wyf yn meddwl ein bod.
 A fuoch chiwi ym Mhenfro erioed o'r blaen ?
 Do, lawer gwaith. Bum yn byw yno am amryw flynyddoedd.
 Beth yw enw'r orsaf nesaf ?

The next station is —.

I believe we are about ten miles and a half off.

I did not know we were so near.

We shall be there in half an hour.

Do we pass through — ?

No ; we leave it on the left — on the right.

How quick we are going !

This carriage shakes a good deal.

They are slackening speed.

We have almost arrived.

We are close by.

Five minutes more and we shall be there.

Do you know of a good hotel ?

Which is the best hotel ?

I should go to the "Queen's" if I were you.

Is that far from the station ?

I will take you there, if you like.

You are very kind.

Yr orsaf nesaf yw —.

Yr wyf yn credu ein bod tua deng milltir oddi yno.

Nid oeddwn yn gwybod ein bod mor agos.

Byddwn yno ymhenn hanner awr.

A ydym yn mynd drwy — ?

Nac ydym ; yr ydym yn ei adael ar y chwith — ar y dde.

Mor gyflym yr ydym yn mynd !

Mae'r cerbyd hwn yn ysgwyd llawer iawn.

Maent yn arafu.

Yr ydym bron a chyrraedd.

Yr ydym yn ymyl.

Pum munud eto, a byddwn yno.

A wyddoch chiwi am westy da ?

Fa un yw'r gwesty gorau ?

Mi awn i'r "Queen's" pe bawn i chiwi.

A ydyw ymhell o'r orsaf ?

Mi af a chiwi yno, os mynnwch.

Yr ydych yn garedig iawn.

THE HOTEL

Good morning to you.

Good morning, sir.

Can you give me a bed ?

Y GWESTY

Bore da i chiwi.

Bore da, syr.

A ellwch chiwi roi gwely i mi ?

With great pleasure.	Gyda phleser mawr.
What is the number of my room?	Pa beth yw rhif fy ystafell?
Number eleven.	Rhif un-ar-dddeg.
Show me the way.	Dangoswch y ffordd i mi.
Take my bag up.	Cymerwch fy mag i fyny.
My luggage is at the station; please send for it.	Mae fy magiau yn yr orsaf; anfonwch amdanynt, os gwelwch yn dda.
Where is the waiter?	Pa le mae'r gweinydd?
Can you speak English?	A fedrwch chwi siarad Saesneg?
Yes, a little.	Medraf, ychydig.
I understand a little, but cannot speak it.	Yr wyf yn deall ychydig, ond ni allaf ei siarad.
Do you understand me?	A ydych chi yn fy neall i?
I do not understand you.	Nid wyf yn eich deall.
He does not know how to speak English.	Nid yw ef yn gwybod pa fodd i siarad Saesneg.
She knows English fairly well.	Mae hi yn gwybod Saesneg yn lled dda.
Not much.	Dim llawer.
You speak well enough.	Yr ydych chi yn siarad yn eithaf da.
You speak better than I.	Yr ydych chi yn siarad yn well na mi.
Do not speak so fast, if you please.	Peidiwch a siarad mor gyflym, os gwelwch yn dda.
Have you a table d'hôte?	A oes gennych ginio cyhoeddus?
At what time? What is the price?	Pa bryd? Beth yw'r pris?
What time do we dine today?	Pa bryd y byddwn yn ciniawa heddiw?

We are to dine at two o'clock.	Yr ydym i giniawa am ddau o'r gloch.
Be so good as to bring me a knife.	Byddwch cystal ag estyn cylllell i mi.
Be so good as to bring me a fork.	Byddwch cystal ag estyn ffôr i mi.
Be so good as to bring me a spoon.	Byddwch cystal ag estyn llwy i mi.
Be so good as to bring me a plate.	Byddwch cystal ag estyn plât i mi.
Be so good as to bring me a glass.	Byddwch cystal ag estyn gwydr i mi.
I wish to have tea, with bread and butter and cold meat.	Yr wyf fi yn dymuno cael tê, gyda bara ac ymenyn a chig oer.
Have you cold meat?	A oes gennych gig oer?
What can I offer you?	Pa beth a allaf gynnig i chwi?
Shall I help you to some of this?	A gaf fi eich helpu â pheth o hwn?
A little, if you please.	Ychydig, os gwelwch yn dda.
That is enough, thank you.	Dyna ddigon, diolch i chwi.
I have quite done.	Yr wyf wedi cwbl orffen.
Will you take some beer?	A gymerwch chwi gwrw?
Thank you, I prefer water.	Diolch i chwi, mae yn well gennyf ddwr.
Let us have breakfast.	Gadewch i ni gael brechwast.
Is breakfast ready?	A ydyw brechwast yn barod?
Bring me (us) some bread and butter.	Dygwch i mi (ni) fara ac ymenyn.
Bring me an egg.	Dygwch wy i mi.
Give us some boiled eggs.	Rhoddwch i ni rai wyau wedi eu berwi.
A cup of Tea — of Coffee.	Cwpanald o Dê — o Goffi.

Bring another cup of tea.	Dygwch gwpanaid arall o dē.
Will you have some more?	A gymerwch chwi ychwaneg?
Nothing more, thank you.	Dim yn ychwaneg, diolch i chwi.
Is there a letter for me?	A oes yna lythyr i mi?
Please send those things to the laundry.	Anfonwch y pethau yna i'w golchi os gwelwch yn dda.
When do you want them returned?	Pa bryd y mae arnoch eu heisiau yn ôl?
Be sure to let me have them on Saturday.	Byddwch yn siwr o adael i mi eu cael dydd Sadwrn.
Give me some notepaper, envelopes, a pen, and ink.	Rhoddwch i mi bapur ysgrifennu, amlenni, pen ac inc.
What day of the month is it?	Pa ddydd o'r mis ydyw?
It is the twenty-fourth.	Y pedwerydd-ar-hugain ydyw.
Where is the Post Office?	Pa le mae'r Llythyrdy?
Is there anything to be seen here?	A oes rhywbeth i'w weld yma?
Is there anything to be seen there?	A oes rhywbeth i'w weld yno?
What churches are to be seen in this neighbourhood?	Pa eglwysi sydd i'w gweld yn y gymdogaeth yma?
What public buildings are to be seen in this neighbourhood?	Pa adelladau cyhoeddus sydd i'w gweld yn y gymdogaeth yma?
How far is it from here to —?	Pa mor bell yw hi oddi yma i —?
About forty — sixty — miles.	Tua deugain—trigain—milltir.
What time does the first train start tomorrow morning?	Pa bryd y bydd y trēn cyntaf yn cychwyn bore yfory?
Let me have the bill.	Gadewch i mi gael y bil.
Here is your bill, sir.	Dyma eich bil, syr.
I think you will find that right, sir.	Credaf y cewch hwnna yn gywir, syr.
Call me at eight o'clock.	Galwch fi am wyth o'r gloch.
Good night.	Nos da.

ASKING THE WAY

Which is the way to — ?
 Go straight on.
 About how far is it?
 About three miles and a half.
 Is there a conveyance?
 This bus goes to —.
 Where do you want to go?
 Will you put me down as near as you can to — ?
 Wait here.
 Have you any change?
 Do you want any silver?
 No, thank you.
 Am I going the right way to — ?
 Is this the nearest road to — ?
 You are going quite wrong.
 Which way ought I to go?
 Can I go to — in half an hour?
 Does this road lead to — ?
 Can you tell me the way to — ?
 Is it far from here?
 Have I far to go?

GOFYN Y FFORDD

Pa un yw'r ffordd i — ?
 Ewch ymlaen ar eich hunion.
 Oddeutu pa mor bell ydyw?
 Oddeutu tair milltir a hanner.
 A oes yna gerbyd?
 Mae'r bws yma'n mynd i —.
 I ba le yr ydych am fynd?
 A wnewch chwi fy ngosod i lawr mor agos ag y gellwch i — ?
 Arhoswch yma.
 A oes gennyh newid?
 A oes arnoch eisiau arian gleision?
 Nac oes, diolch.
 A ydwyf yn mynd y ffordd iawn i — ?
 Ai hon yw'r ffordd agosaf i — ?
 Yr ydych yn mynd yn hollol o chwith.
 Pa ffordd y dylwn fynd?
 A allaf fynd i — mewn hanner awr?
 A yw'r ffordd hon yn arwain i — ?
 A fedrwch chwi ddwend wrthyf y ffordd i — ?
 A ydyw ymhell oddi yma?
 A oes gennyf ffordd bell i fynd?

Not much more than a mile.	Dim llawer mwy na milltir.
I don't think it is a mile.	Nid wyf yn meddwl ei bod yn filltir.
It is fully six miles.	Mae hi'n llawn chwe milltir.
Which is the best way to go to — from here?	Pa un yw'r ffordd orau i fynd i — oddiyma?
You have quite mistaken the way.	Yr ydych wedi camgymeryd y ffordd yn hollol.
You will come to a cross road.	Deuwch at groesffordd.
Which way should I turn?	Pa ffordd y dylwn droi?
You can't miss the way.	Ni ellwch gollir ffordd.
Take the first turning on the left.	Cymerwch y troad cyntaf ar y chwith.
Turn to the right.	Trowch ar y dde.
Ask at the first house you come to.	Gofynnwch yn y tŷ cyntaf y deuwch ato.
Follow this path; it will take you there.	Dilynwch y llwybr yma; fe aiff a chwi yno.
On which side is it?	Ar ba ochr y mae?
On this side.	Ar yr ochr yma.
On the other side.	Ar yr ochr arall.
Must I cross the bridge?	A raid i mi groesi'r bont?
Many thanks.	Llawer o ddiolch (or) Diolch yn fawr.
What river is this?	Pa afon yw hon?
What is its name?	Beth yw ei henw?
What is this place called?	Beth a elwir y lle hwn?
I thank you very much.	Yr wyf yn diolch yn fawr i chwi.
What is this building?	Pa adeilad yw hwn?
May we go in?	A allwn ni fynd i mewn?
I must see it.	Rhaid i mi ei weld.

ON MEETING

Good morning, sir.
 What! You here!
 How do you do today?
 I hope you are well.
 When did you come?
 Yesterday.
 Today.
 Last night.
 How is your father?
 He is quite well, thank you.
 Very well.
 How is your sister?
 She is a little better, thank you.
 My brother is not very well.
 I am very sorry to hear that.
 I did not know he was ill.
 He has got a cold.
 He is in very good spirits.
 The doctor sees him every day.
 I hope he will soon recover.
 How old is your brother?
 He is thirty-five.
 Where are you going?

WRTH GYFARFOD

Bore da, syr.
 Beth! Y chwi yma!
 Sut yr ydych chwi heddiw?
 Gobeithiaf eich bod yn iach.
 Pa bryd y daethoch?
 Ddoe.
 Heddiw.
 Neithiwr.
 Sut mae eich tad?
 Y mae'n eithaf da, diolch.
 Da iawn.
 Sut mae eich chwaer?
 Y mae hi ychydig yn well, diolch i chwi.
 Nid yw fy mrawd yn dda iawn.
 Y mae'n ddrwg iawn gennyf glywed hynny.
 Nid oeddwn yn gwybod ei fod yn sâl.
 Y mae wedi cael anwyd.
 Mae'n galonnog iawn.
 Mae'r meddyg yn ei weld bob dydd.
 Gobeithiaf y gwelldhân fuan.
 Beth yw oedran eich brawd?
 Y mae'n bymtheg-ar-hugain.
 I ba le yr ydych yn mynd?

I am going to —. Yr wyf yn mynd i —.

And after that? Ac ar ôl hynny?

Tell me. Dywedwch wrthyf.

Are you a married man? A ydych yn ŵr priod?

We don't live far from here. Nid ydym yn byw ymhell oddi yma.

Is this your house? Ai hwn yw eich tŷ chwi?

You must come and see us. Bydd raid i chwi ddod i'n gweld.

It will give me great pleasure. Bydd yn bleser mawr i mi.

I will come this evening. Deuaf heno.

TO ENQUIRE FOR ANYONE I YMOFYN AM UNRHYW UN

Do you know anybody here of the name of —? A ydych yn adnabod rhywun yma o'r enw —?

I do not know anyone of that name. Nid wyf yn adnabod neb o'r enw yna.

Is there not a Mr. J— living somewhere here? Onid oes 'na un o'r enw Mr. J— yn byw yn rhywle yma?

Yes, I believe there is. Oes, yr wyf yn credu bod.

Yes, there is a person of that name. Oes, y mae yma berson o'r enw yna.

Do you know him? A ydych yn ei adnabod?

I know him perfectly well. Yr wyf yn ei adnabod yn berffaith dda.

Can you tell me where he lives? A fedrwch chwi ddweud wrthyf pa le mae yn byw?

Whereabouts does he live? Tua pha le y mae yn byw?

He lives close by. Y mae yn byw yn ymyl.

He lives about five minutes walk from here. Mae yn byw oddeutu taith pum munud oddi yma.

He lives in — Street. Mae'n byw yn Stryd —.

Here it is. Dyma fe (S. Wales); fô (N.W.).

That is his house, straight before you. Dyna ei dŷ, yn union o'eh blaen.

There he is standing at the door. Dacw fe, yn sefyll wrth y drws.

I cannot tell you. Ni allaf ddweud wrthyf.

Can you direct me to his house? A fedrwch chwi fy nghyfeirio i'w dŷ?

Which way had I better go? Pa ffordd fyddai orau i mi fynd?

I am going that way myself. Yr wyf yn mynd y ffordd yna fy hunan.

I will go with you. Mi âf gyda chwi.

I will not trouble you. Ni roddaf drafferth i chwi.

It is no trouble at all. Nid yw'n drafferth o gwbl.

I will show you where he lives. Dangosaf i chwi pa le y mae'n byw.

ON THE ROAD

Will you come for a walk? A ddewch chwi am dro?

Let us go for a walk. Gadewch i ni fyned am dro.

Will you come with us? A ddewch chwi gyda ni?

Willingly. Yn ewyllysgar.

With great pleasure. Gyda phob pleser.

I do not think I can. Nid wyf yn meddwl y gallaf.

It will be pleasant walking. Bydd yn bleserus i gerdded.

Are you ready to start? A ydych yn barod i gychwyn?

Yes, make haste. Ydwyf, brysiwch.

I am waiting for you. Yr wyf yn aros amdanoch.

Don't be long. Peidiwch a bod yn hir.

AR Y FFORDD

13

I will be with you in a minute.	Byddaf gyda chwi mewn munud.
Now I am ready.	Yn awr yr wyf yn barod.
Had we better take an umbrella?	A fyddai yn well i ni gymryd glawlen?
Perhaps it would be safer.	Efallai y byddai yn fwy diogel.
Which way shall we go?	Pa ffordd y cawn ni fynd?
Whichever way you like.	Y ffordd y mynnoch.
How dusty the roads are.	Mor llychlyd y mae'r ffyrdd.
The rain has laid the dust.	Mae'r glaw wedi gostwng y llwch.
It is very dirty.	Y mae'n frwnt iawn (N.W., fudr).
We must pick our way.	Rhaid i ni bigo ein ffordd.
Let us go across the fields.	Gadewch i ni fyned ar draws y caeau.
Isn't the grass wet?	Onid yw'r borfa yn wlyb?
We can keep on the path.	Gallwn gadw ar y llwybr.
Let us go through the wood.	Gadewch i ni fyned drwy'r coed.
We shall be sheltered from the sun.	Cawn ein cysgodi rhag yr haul.
Let us walk in the shade.	Gadewch i ni gerdded yn y cysgod.
Which is the path?	Pa un yw'r llwybr.
Let us take this footpath.	Gadewch i ni gymryd y llwybrtroed yma.
How far shall we go?	Pa mor bell y cawn ni fynd?
We will not go very far.	Nid awn ymhell iawn.
This is a very pleasant road.	Mae hon yn ffordd hyfryd iawn.
I must not be long away.	Rhaid i mi beidio bod yn hir i ffwrdd.

We will turn back soon.
Do you feel tired?
I can walk any distance.
Let us return the nearest way.
I want to be home in good time.
It is quite early.
It is only seven o'clock.

THE SHOPS

I want to buy —.
Where can I get it?
Is there a shop near?
Will you come with me to the shop?
I do not think I can.
I cannot go now.
My time is so much occupied.
I am always so busy.
Good morning, sir. What can I show you?
Do you sell —?
I want a hat.
A pair of stockings.
A shirt.
Collars.
What is the price of this?

Ni drown yn ôl yn fuan.
A ydych yn teimlo'n flinedig?
Medraf gerdded unrhyw bellter.
Gadewch i ni ddychwelyd y ffordd agosaf.
Mae arnaf eisiau bod gartref mewn amser da.
Mae'n ddigon cynnar.
Nid yw hi ond saith o'r gloch.

Y SIOPAU

Mae arnaf eisiau prynu —.
Pa le y gallaf ei gael?
A oes siop yn agos?
A ddewch chwi gyda mi i'r siop?
Nid wyf yn meddwl y gallaf.
Ni allaf fynd yn awr.
Y mae fy amser mor brin.
Yr wyf yn wastad mor brysur.
Bore da, syr. Pa beth gaf fi ddangos i chwi?
A ydych yn gwerthu —?
Mae arnaf eisiau het.
Pâr o hosanau.
Crÿs.
Coleri.
Beth yw pris hwn — hon?

Please try this on. **Gwelwch yn dda dreio hon.**
 What is the price of this? **Pa bris yw hwn?**
 I want a pair of shoes. **Mae arnaf eisiau pâr o esgidiau.**
 What price do you wish? **Pa bris ydych yn ei ddewis?**
 These are too small. **Mae'r rhai hyn yn rhy fach.**
 These are too large. **Mae'r rhai hyn yn rhy fawr.**
 How much? **Pa faint?**
 Is this the best you have? **Ai hwn yw'r gorau sydd gennyh?**
 This will do. **Gwna hwn y tro.**
 That is more than I intended giving. **Mae hyn yn fwy nag y bwriadwn ei roddi.**
 Have you any cheaper? **A oes gennyh ddim rhatach?**
 Can you let me have it any cheaper? **Onid ellwch chwi adael i mi ei gael yn rhatach?**
 I will take these. Send them to The Queen's Hotel, No. 11. **Cymeraf y rhai hyn. Danfonwch hwynt i'r Queen's Hotel, Rhif un-ar-ddeg.**
 Have you any new books? **A oes gennyh chwi lyfrau newydd?**
 Have you seen this? It is only just out. **A welsoch chwi hwn? Nid yw ond newydd ddyfod allan.**
 It is only five pence. **Nid yw ond pum ceiniog.**
 I want a pound and a half of sugar and also half a pound of butter. **Mae arnaf eisiau pwys a hanner o siwgr, a hanner pwys o ymenyn hefyd.**
 Have you any good tea? **A oes gennyh dê da?**
 What is the price of the best tea? **Beth ydyw pris y tê gorau?**
 How much is it a pound? **Pa faint y pwys ydyw?**
 The best is eighty pence a pound. **Mae'r gorau yn wyth deg ceiniog y pwys.**

We have some very good tea at seventy pence. **Mae gennym dê da iawn am saith deg ceiniog.**
 I will take a pound of the seventy pence tea. **Cymeraf bwys o dê saith deg ceiniog.**
 Where shall I send it? **I ba le y caf ei ddanfon?**
 I will call for it on my way back. **Galwaf amdano ar fy ffordd yn ôl.**
 You had better let me send it. **Gwell i chwi adael i mi ei ddanfon.**
 It is not necessary, I will take the parcel with me. **Nid yw yn angenrheidiol. Cymeraf y parcel gyda mi.**
 I want my hair cut. **Mae arnaf eisiau torri fy ngwallt.**
 I will call again. **Galwaf eto.**

THE VISIT

Is Mr. — at home? **A ydyw Mr. — gartref?**
 Yes, come in. **Ydyw; dewch i mewn.**
 No, he has just gone out. **Nac ydyw, y mae newydd fynd allan.**
 He will be here directly. **Bydd yma yn fuan.**
 He has gone to meet his father. **Mae efe wedi mynd i gyfarfod ei dad.**
 Please come in; I do not think he will be long. **Dewch i mewn, os gwelwch yn dda; nid wyf yn meddwl y bydd yn hir.**
 Here they are. **Dyma nhw.**
 I am glad to see you again. **Yr wyf yn falch o'ch gweled eto.**
 Which way did you come? **Pa ffordd y daethoch?**
 Mary, call your mother. **Mari, galwch ar eich mam.**
 Wife, this is Mr. —. You remember him? **Wraig, dyma Mr. —. Yr ydych yn ei gofio ef.**

I remember him very well.	Yr wyf yn ei gofio ef yn dda iawn.
I am very glad to see you, Mr. —.	Mae'n dda iawn gennyf eich gweled, Mr. —.
How are all the family?	Sut mae'r teulu i gyd?
Won't you take a seat?	Wnewch chwi ddim eistedd?
Come and have a look at my flowers.	Dewch i gael golwg ar fy mlodau.
I have but a small garden.	Nid oes gennyf fi ond gardd fechan.
Come up this way.	Dewch i fyny'r ffordd yma.
You have a fine collection of flowers.	Mae gennych gasgliad hardd o flodau.
They look well.	Maent yn edrych yn dda.
These are very pretty.	Mae'r rhai hyn yn brydferth iawn.
What flower is this?	Pa flodeuyn yw hwn?
A little rain would do good.	Gwnai ychydig o law ddaioni.
May I pluck a rose?	A gaf fi dorri rhosyn?
Of course.	Wrth gwrs.
This is a fine one.	Mae hwn yn un braf.
It is clearing off. We shall have fine weather tomorrow.	Mae'n clirio. Cawn dywydd braf yfory.
Who is that gentleman?	Pwy yw'r boneddwr yna?
What is his name?	Beth yw ei enw?
Do you know his name?	A ydych chi yn gwybod ei enw?
I think I know him.	Yr wyf yn meddwl fy mod yn ei adnabod.
I have never spoken to him.	Nid wyf erioed wedi siarad ag ef.
I know him by sight.	Yr wyf yn ei adnabod o ran ei weld.

Do you know Mr. —?	A ydych yn adnabod Mr. —?
Have you seen the Castle?	A ydych wedi gweld y Castell?
I saw it the other day.	Gwelais ef y dydd o'r blaen.
Excuse my leaving you.	Esgusodwch fi am eich gadael.
But really I must go.	Ond yn wir, rhaid i mi fynd.
Wait a little.	Arosweh dipyn bach.
I must go.	Rhaid i mi fynd.
I must say farewell.	Rhaid i mi ddweud ffarwel.
When do you intend leaving?	Pa bryd yr ydych yn bwriadu ymadael?
Next Monday.	Dydd Llun nesaf.
I shall be starting tomorrow morning.	Byddaf yn cychwyn bore yfory.
Remember me to all at home.	Cofiwch fi at bawb gartref.
I hope to see you again soon.	Gobeithiaf eich gweld yn fuan eto.
Good afternoon.	Prynhawn da.
Farewell! A pleasant journey.	Ffarwel! A thaith bleserus.

Vocabulary — Geirfa

(The "i" is long in "Sir" as "ee" in "queen")

COUNTIES OF WALES

Mid Glamorgan
South Glamorgan
West Glamorgan
Clwyd
Gwynedd
Powys
Dyfed
Gwent

TIME

A second
Seconds
A minute
Minutes
An hour
Hours
A day
Days
A week
Weeks
A fortnight
A month
Months
A year
Leap year
Years
Century
Centuries
An age
Ages
Morning
Noon (Mid-day)
Afternoon
Evening
Night

SIROEDD CYMRU

Morgannwg Ganol
De Morgannwg
Gorllewin Morgannwg
Clwyd
Gwynedd
Powys
Dyfed
Gwent

AMSER

Eiliad
Eiliadau
Munud
Munudau
Awr
Oriau
Dydd
Dyddiau
Wythnos
Wythnosau
Pythefnos
Mis
Missoedd
Blwyddyn
Blwyddyn naid
Blynyddoedd
Canrif
Canrifoedd
Oes
Oesau
Bore
Canol-dydd
Prynhawn
Hwyr
Nos

ORDINAL NUMBERS, &c.

The first
The second
The third
The fourth
The fifth
The sixth
The seventh
The eighth
The ninth
The tenth
The eleventh
The twentieth
The twenty-first
The twenty-second
The twenty-third
The thirtieth
The thirty-first
The fortieth

The hundredth
The thousandth
Quarter
Half
Three-quarters
One-and-a-half
A pair
A couple
A score
A dozen
Half-a-dozen
Single
Double
Three at a time
All at once

RHIFAU RHESTROL, &c.

Y cyntaf (f. y gyntaf)
Yr ail
Y trydydd (f. y drydedd)
Y pedwerydd (f. y bedwaredd)
Y pumed (f. y bumed)
Y chweched
Y seithfed
Yr wythfed
Y nawfed
Y degfed (f. y ddegfed)
Yr unfed-ar-ddeg
Yr ugeinfed
Yr unfed-ar-hugain
Yr ail-ar-hugain
Y trydydd-ar-hugain
Y ddegfed-ar-hugain
Yr unfed-ar-ddeg-ar-hugain
Y deugeinfed
(f. y ddeugeinfed)
Y canfed (f. y ganfed)
Y milfed (f. y filfed)
Chwarter
Hanner
Tri-chwarter
Un a hanner
Pâr
Cwpwl
Ugain
Dwsin
Hanner-dwsin
Sengl
Dwbl
Tri ar y tro
Y cwbl ar unwaith

(f. — feminine)

CARDINAL NUMBERS

One
Two
Three
Four
Five

Six
Seven
Eight
Nine
Ten
Eleven
Twelve
Thirteen
Fourteen
Fifteen
Sixteen
Seventeen
Eighteen
Nineteen
Twenty
Twenty-one
Twenty-two
Twenty-five
Thirty
Thirty-one
Forty
Fifty
Sixty
Seventy
Eighty
Ninety
Hundred
Two Hundred
Five hundred
Thousand
One thousand nine hundred and ninety-nine
Million

RHIFAU ARBENNIG

Un
Dau (f. dwy)
Tri (f. tair)
Pedwar (f. pedair)
Pump (Pum when preceding
a noun, e.g., pum dyn)
Chwech
Saith
Wyth
Naw
Deg
Un-ar-ddeg
Deuddeg
Tri-ar-ddeg
Pedwar-ar-ddeg
Pymtheg
Un-ar-bymtheg
Dau-ar-bymtheg
Tri-ar-bymtheg, Deunaw
Pedwar-ar-bymtheg
Ugain
Un-ar-ugain
Dau-ar-ugain
Pump-ar-ugain
Deg-ar-ugain
Un-ar-ddeg-ar-hugain
Deugain
Hanner cant
Trigain
Trigain-a-deg
Pedwar-ugain
Pedwar-ugain-a-deg
Cant
Dau gant
Pum cant
Mil
Mil naw cant naw deg
a naw
Miliwn

(f. — feminine)

MONEY

Halfpenny
One penny
Twopence
Threepence
Fourpence
Fivepence
Sixpence
Sevenpence
Eightpence
Ninepence
Tenpence
Elevenpence
Twelve pence
Thirteen pence
Fourteen pence
Fifteen pence
Sixteen pence
Seventeen pence
Eighteen pence
Twenty pence
Twenty-one pence
Half-a-sovereign
Sovereign
Pound
Five pounds
Ten pounds

ARIAN

Hanner ceiniog
Ceiniog
Dwy geiniog
Tair ceiniog
Pedair ceiniog
Pum ceiniog
Chwecheiniog
Saith ceiniog
Wyth ceiniog
Naw ceiniog
Deg ceiniog
Un-geiniog-ar-ddeg
Deuddeg ceiniog
Tair-ceiniog-ar-ddeg
Pedair-ceiniog-ar-ddeg
Pymtheg ceiniog
Un-geiniog-ar-bymtheg
Dwy-geiniog-ar-bymtheg
Deunaw (ceiniog)
Ugain ceiniog
Un-geiniog-ar-hugain
Hanner-sofren
Sofren
Punt
Pum punt
Deg punt

Parts One and Two Published

BEGINNER'S WELSH

By

Stephen J. Williams
M.A., D.Litt.

**Former Professor of Welsh Language and Literature
at the University College of Swansea**

Published by
EVANS & SHORT LTD.
TONYPANDY
MID GLAMORGAN

Per Part

60p

Plus Postage

